Hawdd ei Ddeall

# Canllaw i’ch cerdyn pleidleisio




2026

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma ganllaw Hawdd ei Ddeall i'ch cerdyn pleidleisio.




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Beth ydy cerdyn pleidleisio .......... 4**

**Blaen eich cerdyn pleidleisio .......... 5**


**Cefn eich cerdyn pleidleisio .......... 9**

**Help i chi .......... 15**

# Beth ydy cerdyn pleidleisio



Cyn etholiad, fe fyddwch chi'yn cael cerdyn pleidleisio yn y post.




**Etholiad** ydy pan fydd pobl yn pleidleisio i ddewis rhywun i wneud penderfyniadau ar eu rhan.



Mae **pleidleisio** yn meddwl dewis person neu blaid wleidyddol rydych chi eisiau i'ch cynrychioli chi.





Mae eich cerdyn pleidleisio yn rhoi gwybodaeth bwysig i chi am sut a ble i bleidleisio.



Rydych chi'n gallu pleidleisio heb eich cerdyn pleidleisio, ond mae'n ddefnyddiol dod ag ef gyda chi.

# Blaen eich cerdyn pleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio blaen eich cerdyn pleidleisio. Dyma enghraifft o flaen cerdyn pleidleisio. Mae ganddo rifau i ddangos gwahanol rannau.



**Official Poll card**
**Cerdyn Pleidleisio Swyddogol**

Number on register/ Rhif ar y gofrestr:

| | |
|---|---|
| **Election** | **Etholiad** |
| Constituency / Ward | Etholaeth / ward |
| **Qualifying foreign citizens and 16/17 year olds can vote in Local Government elections.** | **Gall dinasyddion tramor cymwys a phobl 16/17 oed bellach bleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth Leol.** |
| **This card is for information only. You can vote without it but it will save you time if you take it to the polling station and show it to the clerk there.** | **Cerdyn er gwybodaeth yn unig yw hwn. Gallwch bleidleisio hebddo ond bydd yn arbed amser ichi os ewch chi ag ef i'r orsaf bleidleisio a'i ddangos i'r clerc yno.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Polling day** | | **Diwrnod pleidleisio** | |
| **Polling hours** | 7am to 10pm | **Oriau pleidleisio** | 7am i 10pm |

| | |
|---|---|
| Your polling station will be:- | Eich gorsaf bleidleisio fydd: |
| Find out more on voting in Cardiff: | Dysgwch fwy am bleidleisio yng Nghaerdydd: |
| **website** | **gwefan** |
| See further information on the back of this card. | Gweler rhagor o wybodaeth ar gefn y cerdyn hwn. |
| **Helpline number: 029 20872087 (local rate)**<br>**Email: electoralservices@cardiff.gov.uk**<br>**www.cardiff.gov.uk** | **Llinell gymorth: 029 20872088 (cyfradd leol)**<br>E-bost: gwasanaethauetholiadol@caerdydd.gov.uk<br>www.caerdydd.gov.uk |
| **Issued by the returning officer** | **Cyflwynwyd gan y swyddog canlyniadau** |



## 1. Math o etholiad

Mae'r rhan yma yn dweud wrthych chi ym mha etholiad rydych chi'n pleidleisio ynddo. Mae hyn yn meddwl eich bod chi'n pleidleisio dros etholiad penodol.

## 2. Eich ardal bleidleisio



Mae'r rhan yma yn dangos eich etholaeth neu'ch ward. Etholaeth neu ward ydy'r ardal lle rydych chi'n byw ac yn pleidleisio.

Er enghraifft, mae'n gallu dweud Gogledd Caerdydd, Caerdydd Ffynnon Taf neu Ward Caerdydd.


## 3. Dod â'ch cerdyn




Mae'r rhan yma yn esbonio bod eich cerdyn pleidleisio er gwybodaeth yn unig. Dydych chi ddim angen eich cerdyn pleidleisio i bleidleisio. Rydych chi'n gallu pleidleisio hebddo.



Mae'n ddefnyddiol dod ag ef i arbed amser yn yr orsaf bleidleisio.




## 4. Diwrnod yr etholiad

Mae'r rhan yma yn dweud diwrnod yr etholiad. Mae'n dangos y dyddiad mae angen i chi bleidleisio.

## 5. Oriau pleidleisio




Mae'r rhan yma yn dweud wrthych chi pa amser rydych chi'n gallu pleidleisio.

Rydych chi'n gallu pleidleisio rhwng 7am a 10pm. Rydych chi'n gallu mynd ar unrhyw adeg rhwng yr oriau yma.

## 6. Eich gorsaf bleidleisio




Mae'r rhan yma yn dangos ble mae angen i chi fynd i bleidleisio. Mae'r lle yma yn cael ei alw yn orsaf bleidleisio. Dyma lle mae pobl yn mynd i bleidleisio yn bersonol.



Fe fydd yn dangos enw a chyfeiriad y lle.



## 7. Gwybodaeth am ymgeiswyr

Mae'r rhan yma yn dweud wrthych chi ble i ddod o hyd i wybodaeth am bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn eich ardal. Mae ymgeiswyr yn bobl sy'n sefyll yn yr etholiad.



Rydych chi'n gallu edrych ar www.caerdydd.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## 8. Manylion cyswllt

Mae'r rhan yma yn rhoi manylion cyswllt os ydych chi angen help. Rydych chi'n gallu cysylltu â'ch cyngor lleol os ydych chi angen help gyda phleidleisio:



**Ffôn:** 029 2087 2088



**E-bost:** gwasanaethauetholiadol@caerdydd.gov.uk



**Gwefan:** www.caerdydd.gov.uk

Cysylltwch â nhw os oes gennych chi gwestiynau neu angen cefnogaeth.

# Cefn eich cerdyn pleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio cefn eich cerdyn pleidleisio. Dyma enghraifft o gefn cerdyn pleidleisio. Mae ganddo rifau i ddangos gwahanol rannau.

| Election | Etholiad |
|---|---|
| When you go to the polling station, tell the clerk your name and address, as shown on the front of this card. | Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio, dywedwch eich enw a'ch cyfeiriad, fel y'u dangosir ar flaen y cerdyn hwn, wrth y clerc. |
| The clerk will confirm your details on the register. | Bydd y clerc yn cadamhau eich manylion ar y gofrestr. |
| When you are given your ballot paper, go to one of the polling booths. Vote by putting a cross [x] in the voting box next to your choice. | Pan roddir eich papur pleidleisio ichi, ewch i un o'r bythau pleidleisio. Pleidleisiwch drwy roi croes [x] yn y bocs pleidleisio gyferbyn a'ch dewis. |
| **Vote for no more than [insert the number of Candidate to be elected] candidates.** | **Pleidleisiwch dros ddim mwy na [rhowch nifer yr ymgeiswyr sydd i'w hethol] o ymgeiswyr.** |
| If you spoil the ballot paper by mistake, show it to the presiding officer and ask for a replacement. | Os byddwch yn difetha'r papur pleidleisio drwy gamgymeriad, dangoswch ef i'r swyddog llywyddu a gofyn am un newydd. |
| When you have marked the ballot paper, fold it in two. | Pan fyddwch wedi marcio'r papur pleidleisio, plygwch ef yn ddau. |
| Show the presiding officer the number and other unique identifying mark on the back of the ballot paper but do not let anyone see your vote. | Dangoswch y rhif a'r mare adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu and peidiwch a gadael i neb weld eich pleidlais. |
| Put the ballot paper in the ballot box and leave the polling station. | Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadewch yr orsaf bleidleisio. |
| If you will be away on the date of the poll, there are other ways of voting. | Os byddwch i ffwrdd ar ddyddiad y pol, mae ffyrdd eraill o bleidleisio. |
| (1) You can apply to vote by post. Your application must be received by the returning officer before 5pm on **[Date].** If you are given a postal vote, you will not be entitled to vote in person at this election. | (1) Cewch wneud cais i bleidleisio drwy'r post. Rhaid i'ch cais ddod i law'r swyddog canlyniadau cyn 5pm ar **[Dyddiad].** Os rhoddir pleidlais drwy'r post ichi, ni fydd gennych yr hawl i bleidleisio'n bersonol yn yr etholiad hwn. |
| (2) You can apply to vote by proxy (this means someone can vote on your behalf). Your application must normally be received before 5pm on **[Date].** If you appoint a proxy, you can still vote in this election yourself if you do so before your proxy has voted for you. | (2) Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (mae hyn yn golygu y caiff rhywun bleidleisio ar eich rhan). Fel arfer, rhaid i'ch cais ddod i law cyn 5pm ar **[Dyddiad].** Os ydych yn penodi dirprwy, rydych yn dal yn cael pleidleisio yn yr etholiad hwn eich hun os gwnewch chi hynny cyn i'ch dirprwy bleidleisio ar eich rhan. |
| In certain circumstances, it may be possible to apply to vote by proxy after **[Date].** | Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn bosibl gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy arol **[Dyddiad].** |
| **It is an offence to do any of the following-** | **Mae'n drosedd gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol-** |
| • Vote more than once (unless you are appointed as proxy for another elector) at the same election. | • Pleidleisio fwy nag unwaith (oni bai eich bod wedi'ch penodi'n ddirprwy ar ran etholwr arall) yn yr un etholiad. |
| • Vote as proxy at the same election for two or more persons unless you are their spouse, civil partner, parent, grandparent, brother, sister, child or grandchild. | • Pleidleisio fel dirprwy yn yr un etholiad ar ran dau berson neu ragor oni bai eich bod yn briod, yn bartner sifil, yn rhiant, yn daid/tad-cu neu yn nain/mam-gu, yn frawd, yn chwaer, yn blentyn, yn wyr neu'n wyres iddynt. |
| • Vote as proxy for a person if you know that the person is subject to a legal incapacity. | • Pleidleisio fel dirprwy ar ran person os ydych yn gwybod bod y person yn destun anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio. |
| If you want to vote by post or proxy, please contact 02920 872087 as soon as possible. | Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, cysylltwch a 02920 872088 cyn gynted a phosibl. |

9


10

## 9. Sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio





Mae'r rhan yma yn esbonio sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Dilynwch y camau yma pan fyddwch chi'n mynd i bleidleisio:

- Ewch i'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.



- Pan fyddwch chi'n cyrraedd dywedwch eich enw a'ch cyfeiriad wrth y staff.




- Fe fydd staff yn edrych ar eich manylion ar y rhestr bleidleisio. Efallai y byddan nhw'n gofyn am eich ID.



- Rydych chi'n cael eich papur pleidleisio. Papur pleidleisio ydy'r papur rydych chi'n ei ddefnyddio i bleidleisio.



- Ewch i fwth preifat i nodi'ch pleidlais.




**Marcio eich papur pleidleisio**

Pan rydych chi yn y bwth, mae angen i chi farcio eich pleidlais. Edrychwch ar frig eich papur pleidleisio, mae'n dweud wrthych chi  faint o groesau rydych chi'n gallu eu gwneud, Rhowch groes yn y blwch nesaf at eich dewis neu ddewisiadau.



Peidiwch â gwneud unrhyw farciau eraill ar y papur. Os ydych chi'n gwneud marciau eraill, efallai na fydd eich pleidlais yn cael ei chynnwys.



**Os ydych chi'n gwneud camgymeriad**

Efallai y byddwch chi'n gwneud camgymeriad ar eich papur pleidleisio.



Os bydd hyn yn digwydd, rydych chi'n gallu gofyn am un newydd. Dangoswch y papur i'r staff a gofynnwch am bapur pleidleisio newydd.

## Rhoi eich pleidlais yn y blwch

Ar ôl i chi farcio'ch papur pleidleisio, dilynwch y camau yma:



- Plygwch y papur pleidleisio yn ei hanner.



- Cadwch eich pleidlais yn gudd rhag pobl eraill.



- Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio. Y blwch pleidleisio ydy lle mae pleidleisiau'n cael eu casglu'n ddiogel.



Yna rydych chi'n gallu gadael yr orsaf bleidleisio.

# 10. Ffyrdd eraill o bleidleisio



Mae’r rhan yma yn esbonio beth i’w wneud os nad ydych chi’n gallu mynd i orsaf bleidleisio. Mae yna ffyrdd eraill rydych chi’n gallu pleidleisio yn yr etholiad.

**Pleidleisio drwy’r post**




Mae pleidleisio drwy’r post yn meddwl eich bod chi’n pleidleisio gartref.

- Mae eich papur pleidleisio yn cael ei anfon i’ch cartref.



- Rydych chi’n ei lenwi gartref.



- Rydych chi’n ei anfon yn ôl drwy’r post.



Rhaid i chi wneud cais cyn y dyddiad cau sydd yn cael ei ddangos ar eich cerdyn.

## Pleidleisio drwy ddirprwy




Mae dirprwy yn berson rydych chi’n ymddiried ynddyn nhw i bleidleisio drosoch chi.



Maen nhw’n mynd i’r orsaf bleidleisio ac yn pleidleisio ar eich rhan.



Rhaid i chi wneud cais cyn y dyddiad cau sydd yn cael ei ddangos ar eich cerdyn.

# Help i chi

## Help yn yr orsaf bleidleisio



Rydych chi'n gallu cael help pan fyddwch chi'n mynd i bleidleisio:

- Mae staff yn gallu esbonio beth i'w wneud.



- Rydych chi'n gallu dod â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw i'ch cefnogi.



- Efallai y bydd offer cymorth i'ch helpu i bleidleisio.




Pan fyddwch chi'n cyrraedd dywedwch wrth staff os ydych chi angen help.

# Help gan eich cyngor

Rydych chi'n gallu cysylltu â'ch cyngor lleol os ydych chi angen help gyda phleidleisio.



**Ffôn:** 029 2087 2088



**E-bost:** gwasanaethauetholiadol@caerdydd.gov.uk



**Gwefan:** www.caerdydd.gov.uk




Cysylltwch â nhw cyn yr etholiad os ydych chi angen cefnogaeth.



Photosymbols®
Publisher Licence 403527247